

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref Rhydymain
Nos Fawrth, Medi 18, 2018 am 7:30 o'r gloch.**

Preseanol Cyngorwyr: Mordaf Roberts (Cadeirydd), Peredur Jenkins, Rhun Prys Jones, Barry Jones, Hugh A. Evans, Meurig Ashton, Emlyn Roberts, Llion Rh. Williams, Geraint Evans. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

2. Ymddiheuriadau: Gerallt Griffith.

3. Datgan diddordeb.

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Gorffennaf 17, 2018

Wedi cywiro roedd Emlyn Roberts yn absennol, cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Gorffennaf 17, 2018

Eitem 8.a.b. Wedi gwneud ymholiadau gyda chynghorau cymuned leol, derbyniwyd copi o contract clerch oddi wrth Cyngor Cymuned Llanuwchllyn.

Penderfynwyd addasu'r contract i ein defnydd.

Eitem 10.a. Llythyr ateb (8/8/2018) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn rhoi gwybod:

a. Mae cais i docio coed ar gyffordd A494 i Brithdir wedi ei anfon i Uned Cefnffyrdd.

b. Maent angen fwy o wybodaeth am yr arwydd sydd wedi torri ar waelod rhiw Tyn y Buarth ar ffordd Llanfachreth – Ganllwyd.

Eitem 7.a. Llythyr (22/8/2018) yn rhoi fwy o wybodaeth am y cyfarfod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyda chynghorau cymuned a thref dydd Iau, Hydref 4, 2018 am 6.30yh yn Plas Tan y Bwlch. Yr agenda fydd: diweddariad ar y Cynllun Datblygu Lleol, cynllun Partneriaeth y Parc, prosiect LIFE, ymateb i Geisiadau Cynllunio. Maent angen gwybod pwy fydd yn bresennol cyn Medi 25, 2018.

Eitem 6.c. Llythyr (24/8/2018) oddi wrth Un Llais Cymru gyda chynigion terfynol bydd yn cael eu trafod yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (30/7/2018) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd ffordd wrth Llwyn yr Helm, Brithdir yn cael ei ailwynebu.

Llythyr (28/8/2018) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd:

Wal canllaw ar Pont ar Ddibyn, ar ffordd B4416, Brithdir yn cael ei atgyweirio.

Giât wrth Trewen ar Lwybr 96 yn cael ei newid.

b. Llythyr (10/8/2018) oddi wrth Grŵp Cynefin gydag Adroddiad Blynyddol 2017/2018.

c. Llythyr (17/8/2017) oddi wrth Liz Saville Roberts, AS Dwyfor Meirionnydd ynglŷn ag Ymgynghoriad Cyhoeddus – Hedfan Isel. Mae wedi cael nifer o gwynion gan etholwyr am awyrennau milwrol yn hedfan yn isel yn yr ardal (dydd a nos) ac oherwydd hyn mae yn cynnal ymgynghoriad i ganfod y broblem, ac yna adrodd ei chanlyniadau i'r Llywodraeth yn San Steffan ac i'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD). Mae angen gwybod: yr effaith ar drigolion yr ardal, yr effaith ar economi'r ardal, ac unrhyw sylwadau arall. Mae croeso i'r cynghorwyr neu y Cyngor neu aelodau o'r cyhoedd gyflwyno sylwadau ysgrifenedig iddi. Cyfeiriad: Angorfa, Heol Meurig, Dolgellau, LL40 1LN liz.savilleroberts.mp@parliament, ffon: 01341 421 116. Angen ateb cyn dydd Gwener Medi 28, 2018. Amgáu mae llythyr oddi wrth Ministry of Defence.

ch. Llythyr (3/9/2018) oddi wrth Ymddiriedolaeth Cofeb Rhyfel (War Memorial Trust). Maent wedi cael cwyn am gyflwr Cofeb Rhyfel Llanfachreth gyda llythrenau plwm wedi dirywio yn gwneud yr enwau yn aneglur. Maent o'r farn y ni fel cyngor lleol sy'n gyfrifol am y Gofeb. Maent yn cynnig ein helpu ac yn gofyn os mae cynllun i wneud gwaith cadwraeth. Mae gwybodaeth ddefnyddiol ar gael i'r Cyngor ar www.warmemorials.org/helpsheet Mae grant ar gael i wneud gwaith ond mae galw mawr am ei gael. Mae gwybodaeth sut i wneud cais am grantiau ar gael ar www.warmemorials.org/grants a ffurflen ar www.warmemorials.org/pre-ap. Mae angen gwneud cais am grant cyn gwneud gwaith.

d. Llythyr (12/9/2018) oddi wrth Cist Gwynedd gyda phoster ei roi ar wefan y Cyngor yn rhoi gwybod am grant sydd ar gael i sefydliadau ymwneud a chwaraeon a ffitrwydd. Rhoddwyd y poster i'r hysbysffyrddau Llanfachreth, Brithdir a Rhydymain.

dd. Llythyr ateb (18/7/2018) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith yn cael ei wneud i lenwi tyllau ar wyneb y ffordd sydd yng nghoedwigaeth Caerdefaid. (Gweler Eitem 10.c. Cofnodion Mehefin 19, 2018.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MEDI 18, 2018

dd. Llythyr (18/9/2018) oddi wrth Post Frenhinol yn rhoi gwybod am lythyrau twyll sydd ar fod. Amgáu mae poster i roi ar hysbysfyrddau. Rhoddwyd y poster ar hysbysfyrddau Llanfachreth, Brithdir a Rhydymain.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio:

a. NP5/54/16S. Cais rhannol ôl-weithredol i gadw'r gwaith peirianyddol am estyniad arfaethedig i ffin y maes carafannau i greu cyfleusterau gweithgareddau hamdden, cadw newid defnydd yr adeilad amaethyddol yn ardal derbynfa'r maes carafannau ynghyd a newidiadau mewnol, cadw'r gwaith trîn carthion a gwaith trîn carthion arfaethedig. Llwyn-yr-Helm, Brithdir. LL40 2SA

Penderfynwyd cefnogi'r cais (1/8/2018)

b. NP5/54/287A. Trosi cyn ysgol yn dŷ. Yr Hen Ysgol, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (3/9/2018)

c. NP/54/563. Cais rhannol ôl-weithredol ar gyfer wal / ffens terfyn newydd, adeiladu estyniad cefn unllawr a gosod cladin coed i waliau allanol. Bryn Derwen, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (3/9/2018)

ch. NP5/54/562. Dymchwel y byngalo presennol ac adeiladu tŷ newydd deulawr, garej dwbl ac ail leoli'r fynedfa bresennol. Heddwch, Brithdir. LL40 2SF

Penderfynwyd cefnogi'r cais (6/9/2018)

b. Llythyr (1/7/2018) a dogfen ymwneud ag Ymgynghoriad Cychwynnol Cynllun Eryri. Cynllun rheolaeth newydd ar gyfer y Parc. Bydd yn cael ei gynnal rhwng dydd Llun 9/7/2018 a dydd Sul 30/9/2018. Y llefydd agosaf yw Canolfan y Plase, Bala (20/8/18 – 2/9/18) a Castell Harlech (17/9/18 – 30/9/18). Mae ymgynghoriad ar <http://www.eryri.llyw.cymru/cynllneryri>

ch. Llythyr (12/9/2018) a dogfennau ymwneud a 'Chynllun Datblygu Lleol Eryri - Ymgynghoriad ar y materion a godwyd o'r Archwiliad Cyhoeddus'. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus tan Hydref 25, 2018. Mae dogfennau ar gael mewn llyfrgelloedd cyhoeddus.

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (18/6/2018) oddi wrth Un Llais Cymru gyda ffurflen ar gyfer taliadau a wneir i'r aelodau; taliadau fel defnyddio ffôn, cyfrifoldeb, teithio yn 2016/17. Mae angen ei arddangos i'r cyhoedd cyn 30 Medi.

Llythyr (6/2018) gyda'r un wybodaeth oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.

Mae angen anfon copi i Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol. Fe ddangosi'r ffurflen ar wefan y Cyngor.

Nid oedd aelod wedi cael taliadau.

b. Llythyr (31/7/2018) oddi wrth BDO, ein Harchwilydd Allanol. Maent angen fwy o wybodaeth ac angen ei gael cyn Awst 14, 2018 i gwblhau 'r archwiliad. Y wybodaeth maent eu hangen:

1. Mae angen i ni ddarparu'r cyfeirnod cofnodion lle cafodd y ffurflen flynyddol ei dderbyn gan y cyngor yn ogystal â darparu copi o'r cofnodion hyn.

Rhodddwyd copi o Gofnodion Mai 15, 2018 a Gorffennaf 17, 2018.

2. Mae angen i ni ddarparu copi o naill ai gysoniad banc neu ddatganiad(au) banc ar gyfer 31 Mawrth 2018 sy'n cefnogi'r ffigur ym mlwch 9. Dylai'r cysoniad gynnwys pob cyfrif banc, cymdeithas adeiladu ac arian sydd wedi'u cysoni ac unrhyw fuddsoddiadau tymor byr sydd gan y cyngor.

Rhodddwyd y wybodaeth iddynt.

3. Mae'r Asedau sefydlog wedi gostwng £6,170 (14%) a chafwyd esboniad am hyn, ond nid oedd digon o wybodaeth iddynt i ddod i gasgliad. Mae angen i ni ddarparu dadansoddiad manwl o'r gostyngiad, yn cynnwys y symiau dan sylw.

Rhodddwyd gwybod iddynt roedd ffigur £43,564 yn Eitem 12, 2016/2017 yn anghywir. Nid yw ein hasedau wedi newid.

4. Nid ydym wedi nodi lleoliad yr hysbysfyrddau lle cafodd yr hysbysiad ymarfer hawliau etholwyr ei arddangos. Mae angen i ni ddarparu lleoliad pob hysbysfwrdd unigol.

Rhodddwyd gwybod iddynt (eto) roedd yr hysbysfyrddau yn Llanfachreth, Rhydymain, Brithdir a Neuadd Bentref Rhydymain.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MEDI 18, 2018

5. Mae angen i ni ddarparu copi o'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn 17/18 a chofnodion i ddangos ei fod wedi cael ei hadolygu yn ystod y flwyddyn yn erbyn y ffigurau gwirioneddol. Mae angen i ni ddarparu copi o lythyr penodi'r Archwilydd Mewnol ar gyfer y flwyddyn 17/18. Mae tystiolaeth ar goll gydag Atodiad 3 rhan 1 3b).

Rhoddwyd y wybodaeth oedd yn Gofnodion Ionawr 16, 2018 ynghyd a chopi o gyllideb, a chopi o'r llythyr penodi Archwilydd Mewnol.
Anfonwyd y wybodaeth i BDO LLP ar Awst 2, 2018.

c. Llythyr (17/8/2018) oddi wrth BDO, ein Harchwilydd Allanol. Maent angen fwy o wybodaeth ac angen ei gael cyn Awst 31, 2018 i gwblhau 'r archwiliad. Y wybodaeth maent eu hangen:

1. Yn y flwyddyn flaenorol, cafodd mater amodol ei godi gan nad oedd unrhyw dystiolaeth wedi'i darparu i ddangos bod y Cod Ymddygiad wedi cael ei gytuno a'i gofnodi yn y flwyddyn 2016/17. Mae angen i ni ddarparu copi wedi'i ardystio o'r cofnodion sy'n dangos cymeradwyo'r cod ymddygiad.

Rhoddwyd copi o Gofnodion Mehefin 20, 2017, Cofnodion Gorffennaf 18, 2017 a Chofnodion Medi 19, 2017. Ni chafodd y Cod ei gofnodi yn 2016/17 fel roedd ei angen.

2. O ganlyniad i faterion gafodd eu codi yn 2016/17 mae eitemau ychwanegol angen iddynt eu gweld. Mae angen i ni ddarparu copi o'r gyllideb ar gyfer 2017/18 a'r cofnodion ardystiedig wedi eu llofnodi yn dangos fod y gyllideb wedi cael ei monitro yn ystod y flwyddyn.

Rhoddwyd copi (eto) o fanylion y gwaith gwnaethpwyd i baratoi y Praesept a Chyfrifon Cyngor Cymuned Brithdir a Llanfachreth 2018 -2018. Copi hefyd o Ionawr 16, 2018.

3. Mae ein hesboniad am y lleihad yn yr asedau sefydlog yn nodi fod camgymeriad yn ffigur y flwyddyn flaenorol. Mae angen i ni ddarparu copi o gofrestri asedau sefydlog 2016/17 a 2017/18 er mwyn i'r newid gael ei wirio.

Rhoddwyd copi o'r asedau cafwyd gan Zurich. Rhoddwyd copi derbyniwyd gan AON / Maven 2016/17 a 2015/16 oedd yn creu dryswch o ein hasedau ynghyd a llythyr anfonwyd iddynt am eglurhad. Rhoddwyd hefyd copi derbyniwyd gan AON 2014/15 oedd yn rhoi yn glir ein hasedau.

4. Maent wedi nodi sylw yr archwilydd mewnol nid oedd asesiad risg wedi'i gofnodi.

Anfonwyd y wybodaeth i BDO LLP ar Awst 21, 2018.

ch. Llythyr (20/8/2018) oddi wrth Mariee Curie. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y cais mis Chwefror 'Cais am nawdd'

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MEDI 18, 2018

- d. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Gorffennaf, 2018: £1,137.17.
- dd. Balans yn y banc ar 29 Gorffennaf, 2018: £4,769.97.
- e. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Awst, 2018: £1,137.24.
- f. Balans yn y banc ar 29 Awst, 2018: £4,769.97.
- ff. Bil (17/9/2018) am £1,092.00 oddi wrth A.M. Ashton am glirio llwybrau cyhoeddus yr ardal (£1,050) a chlirio gordyfiant o amgylch llochesau bws Drwsynant, Rhydymain a Bontnewydd (£42.00).

Penderfynwyd talu'r swm ac anfon y bil ymlaen i Gwasanaeth Amgylchedd, Cyngor Gwynedd am ad-daliad.

9. Adroddiad Cynghorvdd Peredur Jenkins

- a. Budd biniau yn cael eu symud ar ffordd yn gyffiniau Hengwrt.
- b. Budd y ffordd o'r A494 hyd at Hengwrt Hall yn cael ei graeanu yn ystod y gaeaf.
- c. Oherwydd toriadau yn y gyllideb mae Cyngor Gwynedd yn ei wynebu, mae ymgynghoriad mewn llaw gyda'r cyhoedd.

10. Unrhyw fater arall

- a. Rhoddwyd gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru am gyflwr Ffordd y Bwlch, Llanfachreth. Rhwng Tyddyn-du a Cae Lleucu mae angen gwella'r wyneb y ffordd ond yn fwy pwysig mae angen tocio canghennau'r coed sy'n cau'r ffordd. (13/8/2018). Maent am gysylltu â Meurig Ashton.
- b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Amgylchedd, Cyngor Gwynedd:
 - 1. mae angen symud coeden sydd wedi disgyn dros lwybr cyhoeddus rhwng Ffridd Carmel a Cae Gwyn.
 - 2. mae giat lwybr ar ochr ffordd A494 wrth Station House wedi pydru ac angen un newydd.
- c. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd:
 - 1. Mae angen agor cwteri sydd ar y ffordd o Bontnewydd i Lanfachreth.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MEDI 18, 2018

2. Mae angen ail-osod arwyddbost sydd ar gyffordd Llanelltyd / Llanfachreth / Ty'n y groes, ddim yn bell o Ty'n y Buarth. Mae'r arwyddbost ar ei hyd ar ochr y ffordd.

3. Mae gwaith da wedi cael ei wneud ar ffordd Rhiwfelen, Abergeirw.

Llofnod:

Dyddiad: